Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales



# BUDDSODDI MEWN NYRSIO
# BUDDSODDI MEWN CLEIFION
# BUDDSODDI MEWN CYMDEITHAS

**MANIFFESTO ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024**
**COLEG NYRSIO BRENHINOL Y DU**

# GRADDFA'R ARGYFWNG NYRSIO

## 25,000

nifer y bobl a adawodd y gofrestr nyrsio y llynedd

## 2,470

yn llai o bobl wedi gwneud cais am gwrs gradd mewn nyrsio

## 45%

o staff nyrsio yn ystyried neu'n bwriadu gadael eu swyddi

## 12%

ar fin ymddeol

# MAE'N CYMRYD PERSON ANHYGOEL I WEITHIO YM MAES NYRSIO

**Mae staff nyrsio gyda ni o'r foment rydym yn gwneud ein hymddangosiad yn y byd, i'r foment rydym yn ei adael. Maen nhw gyda ni drwy gydol ein bywydau, yn darparu gofal pan fydd ei angen arnom fwyaf ac yn dangos ymroddiad a phroffesiynoldeb eithriadol.**

Dyna pam **mae'r cyhoedd yn ymddiried mewn staff nyrsio yn fwy nag unrhyw broffesiwn arall**. Maen nhw'n deall ein gwerth, ein hymroddiad, a'n harbenigedd.

Ac eto, mae'r proffesiwn yn brin o staff o hyd. Mae yna **ddegau o filoedd o swyddi nyrsio gwag** ledled y DU a miloedd ohonyn nhw ym maes gofal cymdeithasol.

Mae staff nyrsio yn cael eu hymestyn i'r eithaf. **Wedi'u gorlwytho, ar gyflog gwael, ar ben eu tennyn.**

Dyna pam mae'n rhaid i'r etholiad hwn fod yn etholiad nyrsio. **Pan rydych chi'n buddsoddi mewn nyrsio, rydych chi'n buddsoddi mewn cleifion, rydych chi'n buddsoddi mewn cymdeithas.** Rydym yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr am eu hangerdd a'u hewyllys gwleidyddol i ddod â'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ôl o'r dibyn.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn falch o gynrychioli mwy na hanner miliwn o aelodau ledled y DU. **Gallwn ni ddim sefyll o'r neilltu a derbyn mwy o addewidion gwag** neu ddiffyg gweithredu.

Mae streiciau digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi grymuso ein haelodau. Rydym yn barod i sicrhau bod ein lleisiau, a lleisiau ein cleifion a'n cymunedau, yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir.

Mae staff nyrsio, yn gywir ddigon, yn ddig, ond **mae gennym ni'r atebion i sicrhau bod y proffesiwn yn cael y dechrau newydd sydd ei angen arno**. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol hon, byddwn ni ddim yn dal yn ôl rhag siarad dros ein haelodau a'r bobl maen nhw'n rhoi eu bywydau gwaith i ofalu amdanyn nhw.

**Mae'r cyhoedd yn gwerthfawrogi staff nyrsio. Mae cleifion yn gwerthfawrogi staff nyrsio. Gofynnwn i chi wneud hynny hefyd.**

# EIN 12 PRIF FLAENORIAETH

## RYDYM EISIAU GWELD:

1. Codiad cyflog sylweddol ar gyfer pob aelod o staff nyrsio a datblygiad cyflog awtomatig band 5 i fand 6 ar gyfer nyrsys y GIG.
2. Cymarebau nyrsys i gleifion allweddol o ran diogelwch ym mhob lleoliad gofal.
3. Amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer pobl sy'n codi pryderon am staffio anniogel.
4. Cymorth iechyd meddwl wedi'i ariannu ar gyfer pob aelod o staff nyrsio wedi'i ddarparu gan bob cyflogwr.
5. Gofal mewn coridorau yn cael ei ddileu, gan gynnwys adroddiadau y caiff pobl eu cymell i'w gwneud.
6. Graddau nyrsio a ariennir gan y Llywodraeth gyda swyddi gwarantedig ar gyfer graddedigion.

**7.** Diddymu deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar yr hawl i fynd ar streic.

**8.** Teitl 'nyrs' wedi'i ddiogelu yn y gyfraith.

**9.** Diwedd ar gamfanteisio ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

**10.** Cyllid digonol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

**11.** Staff nyrsio a addysgir yn rhyngwladol yn cael eu cefnogi drwy roi diwedd ar bolisïau mewnfudo cosbol.

**12.** Cynnydd yn y gwariant ar gymorth tramor er mwyn mynd i'r afael â phrinder nyrsys yn fyd-eang.

# Y NEWID GWLEIDYDDOL SYDD EI ANGEN ARNOM

## Gwerthfawrogi staff nyrsio

**Mae'r sector iechyd a gofal mewn argyfwng. Gall y GIG ddim recriwtio na chadw digon o nyrsys ac, yn rhy aml, mae staff nyrsio sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal annibynnol yn cael eu cyflogi ar gontractau isradd gyda chyflog is a thelerau ac amodau gwaeth o gymharu â staff nyrsio sy'n gweithio yn y GIG.**

Menywod sy'n cyfrif am fwyafrif y rhai sy'n gweithio yn y proffesiwn ac mae'n un o'r proffesiynau mwyaf amrywiol yn ethnig hefyd. Mae hynny'n golygu bod yr anghyfiawnder sy'n gysylltiedig â chyflog nyrsio yn fater sy'n ymwneud â rhywedd a hil. Mae llawer o'n haelodau yn rhan o'r mwyafrif byd-eang. Gall y proffesiwn nyrsio ac iechyd y genedl ddim fforddio colli un nyrs arall.

Mae staff nyrsio yn haeddu cael fframwaith cadarn o hawliau yn y gweithle – fframwaith sy'n adlewyrchu difrifoldeb y cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw. Dylen nhw fod yn gallu mynd i mewn i'w gweithle gan ddal eu pennau'n uchel a chyda'r hyder o wybod y byddan nhw'n cael eu trin gyda thegwch, urddas, a pharch.

Mae gweithlu nyrsio wedi'i rymuso yn dda i gleifion, yr union unigolion hynny y mae aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn eirioli'n ddiflino dros eu llesiant nhw bob dydd.

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, pleidleisiodd aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol o blaid streicio hanesyddol ym mhob rhan o'r DU ac roedd yn ymwneud â mwy na dim ond codiad cyflog. Roedden nhw'n brwydro dros ddiogelwch cleifion ac yn protestio yn erbyn prinder staff cronig, oriau gwaith hir, llwythi gwaith anghynaliadwy a chyfleoedd cyfyngedig i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mewn ymateb, mae mwy o hawliau staff nyrsio i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol cyfreithlon wedi'u diddymu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

# RYDYM EISIAU GWELD:

- Codiad cyflog adferol sylweddol, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer pob aelod o staff nyrsio a datblygiad cyflog awtomatig band 5 i fand 6 ar gyfer nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y GIG ar gontractau Agenda ar gyfer Newid.

- Pob adran o Ddeddf Streiciau (Isafswm Lefelau Gwasanaeth) 2023 a Deddf yr Undebau Llafur 2016 yn cael ei diddymu, yn ddieithriad.

# Gwarantu gofal diogel ac effeithiol

**Mae nyrsys yn darparu gofal hynod fedrus sy'n achub bywydau. Mae'n cymryd person anhygoel i wneud hyn bob dydd. Ymroddiad, proffesiynoldeb ac arbenigedd staff nyrsio yw sylfaen ein system iechyd a gofal. Hebddyn nhw, does dim gwasanaeth iechyd.**

Ond mae galw a llwythi gwaith cynyddol a phrinder o ran y gweithlu yn golygu nad oes gan staff nyrsio fawr o ddewis ond darparu gofal mewn amodau anniogel, gan gynnwys yr ymarfer annerbyniol o drin cleifion mewn mannau amhriodol fel coridorau, ystafelloedd aros a chypyrddau storio.

Mae'r dystiolaeth yn glir. Mae'r risg gymharol o farwolaeth yn cynyddu 3% am bob diwrnod y bydd claf yn profi prinder staff nyrsio cofrestredig ar ward ysbyty. Mae angen lefelau staffio arnom sy'n diogelu staff nyrsio a diogelwch cleifion.

Mae isafswm cymarebau staff i gleifion yn ofynnol ar gyfer diogelwch mewn proffesiynau eraill, gan gynnwys gofal plant a gofal milfeddygol. Rhaid i'r un diogelwch gael ei ddarparu i staff nyrsio a'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Llywodraethau ddylai fod yn gyfrifol, yn y pen draw, am sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn amodau diogel gan nifer priodol o staff nyrsio.

# RYDYM EISIAU GWELD:

- Cymarebau nyrsys i gleifion y gellir eu gorfodi'n broffesiynol ac yn gyfreithiol yn cael eu cyflwyno, gydag uchafswm nifer o gleifion i bob nyrs gofrestredig, sy'n allweddol i ddiogelwch, ym mhob lleoliad gofal iechyd.

- Deddfwriaeth i ddiogelu teitl 'nyrs' yn y gyfraith.

- Amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer pobl sy'n codi pryderon am staffio anniogel.

- Gofal mewn coridorau yn cael ei ddileu, gan gynnwys adroddiadau cyhoeddus gorfodol ar bob digwyddiad.

- Ymrwymiad i gyflwyno neu gynnal graddau nyrsio a ariennir gan y llywodraeth gyda buddsoddiad mewn addysg uwch a swyddi gwarantedig ar gyfer pob nyrs gofrestredig raddedig, gan leihau'r ddibyniaeth ar recriwtio rhyngwladol.

- Atebolrwydd ar lefel y llywodraeth ar gyfer cynllunio a chyflenwi gweithlu nyrsio yn y gyfraith, gyda gweinidogion yn atebol am sicrhau bod yna ddigon o staff i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn seiliedig ar asesiadau tryloyw sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

# Iechyd gwell i bawb

**Mae anghydraddoldeb iechyd yn rhedeg yn ddwfn yn y DU. Caiff y rhain eu gweld mewn disgwyliad oes is, risg gynyddol o gyflyrau iechyd hirdymor, ac absenoldeb oherwydd salwch.**

Mae iechyd da yn hanfodol i gefnogi pobl sy'n gweithio ac er budd yr economi ehangach.

Os yw pobl yn afiach ac os yw iechyd gwael yn effeithio arnyn nhw oherwydd anghydraddoldeb dwfn, gallan nhw ddim gweithio a chyfrannu at yr economi.

Mae'r cynnydd sydyn mewn iechyd gwael yn peri risg ddifrifol i gynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal hefyd – bydd hyn yn cynyddu oni bai ein bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn briodol.

Nid dim ond mewn ysbytai neu ganolfannau iechyd y mae staff nyrsio yn gweithio. Maen nhw'n gweithio yng nghanol cymunedau, yn aml mewn ffyrdd arloesol i hyrwyddo iechyd da ac i ofalu am rai o'r grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf.

Mae'n rhaid sicrhau bod gofal ar gael i bobl ag anghenion cymhleth a'r boblogaeth sy'n heneiddio hefyd. Mae'n hanfodol nawr bod yna ddull hirdymor o fynd i'r afael â gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion sy'n cydnabod bod anghenion iechyd cymhleth yn cael eu diwallu mwyfwy mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

# RYDYM EISIAU GWELD:

- Mwy o flaenoriaeth i atal iechyd gwael drwy fuddsoddiad cynaliadwy mewn gwasanaethau gofal iechyd sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Staff nyrsio ar flaen y gad o ran atebion ac ymyriadau sy'n hyrwyddo canlyniadau iechyd gwell yn eu cymunedau.
- Camau ar unwaith i wella argaeledd gofal cymdeithasol i oedolion a'r ffordd y caiff ei ddarparu, gan gynnwys gweithlu nyrsio sy'n adlewyrchu lefelau cynyddol o anghenion iechyd cymhleth.
- Deddfwriaeth sy'n gwahardd pob ymarfer therapi trosi LHDT+.

# Gweithleoedd diogel a chefnogol

**Mae adroddiadau bod staff nyrsio yn destun ymosodiadau yn y gwaith yn gyffredin. Mae nifer y galwadau y mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn eu cael gan aelodau gofidus sy'n wynebu hyn yn parhau i gynyddu. Mae nyrsys yn cael eu bwrw a'u dyrnio, ac mae pobl yn poeri arnyn nhw tra eu bod yn gweithio shifftiau hir o 12 awr heb lawer o seibiant. Maen nhw'n cael eu gorweithio, maen nhw o dan bwysau, ac maen nhw'n cael eu gadael yn teimlo'n anobeithiol gydag ychydig iawn o ofal yn cael ei ddangos wrth iddyn nhw ofalu am eraill.**

Menywod yw mwyafrif y rhai sy'n gweithio yn y proffesiwn. Mae'n weithlu amrywiol yn hiliol hefyd. Mae staff nyrsio yn parhau i brofi casineb at fenywod, trais yn seiliedig ar rywedd, a hiliaeth yn ddyddiol. Ni ddylid goddef unrhyw fath o wahaniaethu. Ni waeth lle y bydd nyrs yn mynd i weithio – boed mewn ysbyty, yn y gymuned, neu mewn cartref gofal, dylai adnoddau a chymorth llesiant fod ar gael.

Mae'n rhaid rhoi diwedd ar y camfanteisio sy'n targedu staff nyrsio a'u cydweithwyr a addysgir yn rhyngwladol. Mae staff yn adrodd eu bod nhw'n cael eu rhwymo i gontractau drwy ffioedd cosb sylweddol ac yn talu symiau afresymol i asiantaethau recriwtio twyllodrus i ddod o hyd i waith. Does dim lle i'r arferion hyn yn ein system iechyd a gofal.

# RYDYM EISIAU GWELD:

- Camau i fynd i'r afael â thrais a chamdriniaeth, gan gynnwys iaith neu ymddygiad hiliol ac iaith neu ymddygiad gwahaniaethol arall, tuag at staff nyrsio.

- Cymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol ar gyfer pob aelod o staff nyrsio sy'n gweithio ar gyfer pob cyflogwr iechyd a gofal cymdeithasol, gyda mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol.

- Cymorth i gyflawni strategaethau cydraddoldeb hil, gan gynnwys camau penodol i gyrff a gwasanaethau sector cyhoeddus ddileu rhagfarn, hiliaeth a gwahaniaethu ehangach ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

- Cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydymffurfio â safonau llafur, gyda chyflogwyr ac asiantaethau twyllodrus yn cael eu dwyn i gyfrif am fethu â chydymffurfio. Dylid rhoi pwerau i'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur reoleiddio'r sector gofal.

- Cyllid digonol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn seiliedig ar amcanestyniadau o anghenion gwasanaethau a'r boblogaeth yn y dyfodol. Dylai DPP gael ei ystyried o ran yr oriau y caiff staff nyrsio eu talu, gydag arian i weithio sifftiau'r rhai sy'n ymgymryd â hyfforddiant.

# Bod yn arweinydd iechyd byd-eang

**Mae toriadau i wariant datblygu rhyngwladol i gefnogi gwledydd mewn rhannau eraill o'r byd wedi dod ar adeg pan mae buddsoddiad yn y gweithlu nyrsio byd-eang yn hanfodol i'r broses o adfer ar ôl y pandemig ac i gyflawni nodau iechyd byd-eang.**

Ar yr un pryd, mae gwledydd, gan gynnwys y DU, wedi bod yn ceisio, yn fwriadol, i ddenu nyrsys o wledydd sydd â phrinder i gau'r bylchau yn y gweithlu domestig.

Mae staff nyrsio a addysgir yn rhyngwladol yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r proffesiwn nyrsio yma, ond mae polisïau mewnfudo gelyniaethus yn golygu bod y DU yn dod yn lle mwyfwy anneniadol i fyw a gweithio.

Ar gyfer pobl sy'n ceisio diogelwch yn y DU, mae'n rhaid bod yna system sy'n eu galluogi i hawlio lloches mewn ffordd sy'n cynnal eu hawliau dynol ac sy'n cael ei hategu gan dosturi a thegwch.

# RYDYM EISIAU GWELD:

- Diwedd i bolisïau mewnfudo cosbol, sydd, ymhlith pethau eraill, yn golygu na all staff nyrsio a addysgir yn rhyngwladol heb ganiatâd amhenodol i aros hawlio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau'r wladwriaeth o hyd.

- Diwedd i ddibyniaeth y DU ar recriwtio dramor o wledydd lle mae prinder staff nyrsio.

- Ailddatgan y gyllideb cymorth dramor i fynd i'r afael â phrinder staff nyrsio yn fyd-eang, gan gynyddu gwariant cymorth datblygu swyddogol i 0.7% o incwm gwladol gros yn unol â thargedau'r Cenhedloedd Unedig.

- Sefydlu system lloches a mewnfudo sy'n cynnal rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol ac yn sicrhau mynediad at ofal iechyd.

## MYNNWCH WYBOD, CYMERWCH RAN, GWEITHREDWCH

Am ragor o wybodaeth, ewch i **rcn.org.uk/general-election** neu sganiwch y cod QR.

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales



# MAE ANGEN Y BLEIDLAIS NYRSIO AR BOB GWLEIDYDD

**MANIFFESTO ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024**
**COLEG NYRSIO BRENHINOL Y DU**